Law Commission
Reforming the law

Scottish Law Commission
promoting law reform



# DEFNYDDIO TREFNIADAU BENTHYG CROTH ER MWYN CAEL TEULU: CYFRAITH NEWYDD

Crynodeb o’r Papur Ymgynghori

## YR YMGYNGHORIAD HWN

| | |
|---|---|
| **Pwy ydyn ni?** | Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, a Chomisiwn y Gyfraith yn yr Alban, yn gyrff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i'r llywodraeth ynglŷn â diwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr, ac yn yr Alban. |
| **Beth rydyn ni'n ei wneud?** | Rydyn ni'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch ein cynigion dros dro i ddiwygio'r gyfraith sy'n rheoli trefniadau benthyg croth (surrogacy). |
| **Beth yw'r pwnc?** | Trefniadau benthyg croth – lle mae menyw yn beichiogi ac yn rhoi genedigaeth i blentyn ar ran teulu arall. |
| **Pam rydyn ni'n ymgynghori?** | Rydyn ni'n gofyn am farn am ein cynigion dros dro ac yn gofyn cwestiynau. Bydd eich safbwyntiau'n cael eu hystyried yn ofalus pan fyddwn ni'n penderfynu ar ein hargymhellion terfynol. |
| **Gan bwy rydyn ni'n dymuno clywed?** | Rydyn ni'n awyddus i gael sylwadau gan gynifer o randdeiliaid ag y bo modd – gan gynnwys y rheini sydd wedi bod yn rhan o drefniadau benthyg croth yn y gorffennol, y rheini sy'n ymwneud â threfniadau benthyg croth ar hyn o bryd, a'r rheini y gallai trefniadau o'r fath fod yn berthnasol iddyn nhw yn y dyfodol – p'un ai a ydyn nhw'n cytuno â'n cynigion dros dro ai peidio. |
| **Beth yw'r dyddiad cau?** | Daw'r ymgynghoriad i ben ar 27 Medi 2019. |
| **Beth fydd yn digwydd nesaf?** | Ar ôl edrych yn ofalus ar bob ymateb, byddwn yn penderfynu ar ein hargymhellion terfynol ar gyfer diwygio'r gyfraith. Byddwn wedyn yn cyhoeddi'r rheini mewn adroddiad, ynghyd â fersiwn ddrafft o fil (deddfwriaeth) yn 2021. |

## Y CRYNODEB HWN

Dydy'r Crynodeb hwn ddim yn crynhoi pob un o'r cwestiynau na'r cynigion dros dro sydd i'w gweld yn y Papur Ymgynghori manwl. Yn hytrach na hynny, mae'n esbonio'r prosiect, yn rhoi rhywfaint o gyd-destun, ac yna'n tynnu sylw at y prif faterion sy'n cael eu trafod yn y Papur Ymgynghori. Diben y Crynodeb hwn yw rhoi trosolwg o'r prif faterion hynny.

Cyn ymateb, hoffem eich annog i ddarllen y Papur Ymgynghori llawn, neu'r rhannau perthnasol ohono. Does dim rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr Ymgynghoriad.

Mae'r Crynodeb hwn yn cyfeirio at benodau'r Papur Ymgynghori.

## YMATEB I'N HYMGYNGHORIAD

Mae'r Papur Ymgynghori ar gael ar ein gwefannau yn https://www.lawcom.gov.uk/project/surrogacy/ ac yn https://www.scotlawcom.gov.uk/law-reform/consultations/

Rhaid cyflwyno ymatebion erbyn 27 Medi 2019.

Gallwch anfon sylwadau atom drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein, sydd ar gael ar ein gwefannau. Byddai'n ddefnyddiol petai modd i chi ddefnyddio'r ffurflen hon.

Fel arall, gallwch anfon sylwadau:

(1) drwy e-bost i surrogacy@lawcommission.gov.uk; neu

(2) drwy'r post i Surrogacy Team, Law Commission, 1st Floor, 52 Queen Anne's Gate, London, SW1H 9AG.

(Os byddwch chi'n anfon eich sylwadau drwy'r post, byddai'n fuddiol pe gallech eu hanfon yn electronig hefyd os oes modd i chi wneud hynny).

**Gofynnwn i bawb sy'n ymateb i'r ymgynghoriad beidio â chynnwys gwybodaeth bersonol a allai ddatgelu pwy ydyn nhw yn y testun, yn enwedig petai modd adnabod pobl eraill sy'n rhan o'u trefniadau benthyg croth wrth edrych ar y wybodaeth honno.**

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal ei ymgynghoriadau, a'n polisi ynghylch cyfrinachedd ymatebion i'r ymgynghoriad, edrychwch ar dudalen I y Papur Ymgynghori.

# CYFLWYNIAD

**Beth yw benthyg croth?**

Benthyg croth (surrogacy) yw'r term a ddefnyddir pan fydd menyw (y cyfeirir ati fel "mam fenthyg") yn beichiogi gyda phlentyn a allai fod yn perthyn iddi'n enetig neu beidio, yna'n cario'r plentyn ac yn rhoi genedigaeth iddo ar ran teulu arall (sef y "darpar rieni").

Mae hyn wedi bod yn digwydd ers talwm iawn, ond dim ond ar ôl i'r broses ffrwythloni in vitro ("IVF") gael ei datblygu y mae trefniadau benthyg croth sydd ddim yn defnyddio wyau'r fam fenthyg yn bosibl. Drwy'r broses IVF, gellir defnyddio wyau'r ddarpar fam neu wyau gan roddwr arall yn hytrach nag wyau'r fam fenthyg. Yn sgil hyn, mae dau fath o drefniant benthyg croth yn bodoli.

**Gwahanol fathau o drefniadau benthyg croth**


| Benthyg croth – traddodiadol (traditional/straight/ partial surrogacy): | Benthyg croth – cario yn unig (gestational/host/full surrogacy): |
|---|---|
| trefniadau benthyg croth lle mae'r fam fenthyg yn perthyn yn enetig i'r plentyn gan mai wy y fam fenthyg ei hun sy'n cael ei ddefnyddio. Defnyddir proses ffrwythloni artiffisial (nid cyfathrach rywiol) i genhedlu'r plentyn. | trefniadau benthyg croth lle nad yw'r fam fenthyg yn perthyn yn enetig i'r plentyn oherwydd nid ei hwyau hi sy'n cael eu defnyddio. Defnyddir IVF i genhedlu'r plentyn. |

I bobl sydd ddim yn gallu cario babi eu hunain, mae benthyg croth yn ffordd o gael teulu. Bydd y darpar rieni sy'n ymrwymo i'r trefniadau benthyg croth yn perthyn i un o ddau grŵp:

- cyplau o wahanol ryw, neu fenywod sengl, sy'n anffrwythlon;
- cyplau o'r un rhyw neu ddynion sengl, sydd ddim yn gallu beichiogi oherwydd eu rhyw.

Er na ellir dweud yn sicr faint o blant sy'n cael eu geni drwy drefniadau benthyg croth bob blwyddyn, rhan fach iawn ydyn nhw o gyfanswm y genedigaethau byw yn y DU bob blwyddyn. Ac eto, mae nifer y genedigaethau sy'n deillio o drefniadau benthyg croth yn dal i dyfu, ac mae effaith y gyfraith ar bawb dan sylw yn sylweddol.

**Nifer y plant sy'n rhan o achosion gorchymyn rhieni yng Nghymru a Lloegr**




Mae nifer y gorchmynion rhieni a roddwyd gan lysoedd yr Alban yn gymharol fach. Yn 2018, er enghraifft, pymtheg ohonyn nhw a roddwyd.

Mae'r prosiect diwygio trefniadau benthyg croth yn cael ei gynnal gan Gomisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr a Chomisiwn y Gyfraith yn yr Alban. Cychwynnodd y gwaith ym mis Mai 2018, ac rydyn ni'n disgwyl y bydd yr adroddiad – sy'n cynnwys argymhellion ynghylch diwygio'r gyfraith – yn cael ei gyhoeddi yn 2021. Rydyn ni'n rhagweld y bydd fersiwn ddrafft o'r ddeddfwriaeth yn cael ei chyhoeddi i gyd-fynd â hwn, gan amlinellu'r gyfraith newydd ar gyfer rheoli trefniadau benthyg croth yn y DU.

Mae'r gefnogaeth mae'r prosiect hwn wedi'i chael gan ddarpar rieni a mamau benthyg yn dangos pa mor bwysig yw hyn i bobl go iawn sy'n defnyddio'r trefniant hwn i gael teulu. Mae'n bryd diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â benthyg croth yn y DU yn gyfan gwbl. Mae'n rhaid i'r diwygio ddiogelu diwylliant cadarnhaol trefniadau benthyg croth yn y DU, a sicrhau ar yr un pryd bod y ddeddfwriaeth yn cyd-fynd ag arferion modern.

Surrogacy UK

Nid bwriad ein prosiect yw pwyso a mesur a ddylid caniatáu i bobl gael teulu drwy fenthyg croth ai peidio. Yn y canllawiau mae'n eu cyhoeddi ar drefniadau benthyg croth, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydnabod bod benthyg croth yn ffordd a dderbynnir o gael teulu, a dyma ein man cychwyn ni:

***Mae'r llywodraeth yn cefnogi trefniadau benthyg croth fel rhan o'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael i helpu pobl i genhedlu plentyn. Yn ein barn ni, mae benthyg croth yn cynnig llwybr ar gyfer gwneud hynny, gan ddechrau gyda'r penderfyniad ynghylch pa sefydliad i weithio gydag ef yn y maes, penderfynu pa fam fenthyg neu ddarpar rieni i weithio gyda nhw, dod i gytundeb ynglŷn â sut bydd pethau'n gweithio, ceisio beichiogi, cefnogi'r naill a'r llall drwy'r beichiogrwydd ac yna'r enedigaeth, gwneud cais am orchymyn rhieni i drosglwyddo'r statws rhieni cyfreithiol, ac yna helpu eich plentyn i ddeall amgylchiadau ei enedigaeth. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi mwy o wybodaeth am bob cam.***

Felly yn y prosiect, rydyn ni'n canolbwyntio ar wella'r ffordd mae trefniadau benthyg croth yn gweithio. Er ein bod yn credu bod y gymdeithas ac agweddau wedi esblygu erbyn hyn, dydyn ni ddim yn credu bod hynny'n wir am y gyfraith.

| **1985** | Heddiw – **2019** |
|---|---|
| Y babi tiwb prawf cyntaf ddim ond 7 mlynedd ynghynt | Cymorth i atgenhedlu, fel IVF, yn dod yn fwyfwy cyffredin |
| "Sgandal" Babi Cotton | Agweddau'r gymdeithas a'r cyfryngau at drefniadau benthyg croth yn fwyfwy cadarnhaol |
| Homoffobia eang a dim cydnabyddiaeth gyfreithiol i gyplau o'r un rhyw | Priodasau o'r un rhyw o 2014 ymlaen a hawliau cyfartal |
| Blwyddyn ar ôl Adroddiad Warnock i'r Llywodraeth: argymhellion cryf i wahardd trefniadau benthyg croth | Arweiniad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol – y llywodraeth yn cydnabod trefniadau benthyg croth fel ffordd gyfreithlon o gael teulu |

## TROSOLWG O'N DIWYGIADAU

Yn y Crynodeb hwn, rydyn ni'n nodi'n gryno beth yw'r gyfraith ar drefniadau benthyg croth ar hyn o bryd – a beth yw'r problemau gyda'r gyfraith – cyn esbonio'r cynigion dros dro rydyn ni'n eu gwneud, a'r cwestiynau rydyn ni'n eu gofyn.

Cyn gwneud hynny, dyma restr o'n prif gynigion ar gyfer diwygio:

- Creu llwybr newydd at fod yn rhieni cyfreithiol mewn trefniadau benthyg croth, a fydd yn caniatáu i'r darpar rieni fod yn rhieni cyfreithiol o'r adeg y mae'r plentyn yn cael ei eni.
- Gofynion a mesurau diogelu ar gyfer y llwybr newydd.
- Rheolydd ar gyfer trefniadau benthyg croth a chreu sefydliadau benthyg croth sy'n cael eu rheoleiddio i oruchwylio'r trefniadau benthyg croth o fewn y llwybr newydd.
- Cael gwared â'r angen am gysylltiad genetig rhwng y darpar rieni a'r plentyn, lle bo hynny'n feddygol angenrheidiol (yn y llwybr newydd, ac o bosibl ar gyfer yr holl drefniadau domestig; bydd angen cysylltiad genetig ar gyfer trefniadau rhyngwladol o hyd).
- Creu cofrestr er mwyn i'r rheini sy'n cael eu geni yn sgil trefniadau benthyg croth allu cael gafael ar wybodaeth am eu gwreiddiau.
- O ran diwygiadau gweithredol i drefniadau benthyg croth rhyngwladol, canllawiau unedig ar faterion yn ymwneud â mewnfudo a chenedligrwydd, a darpariaeth ar gyfer cydnabod rhieni cyfreithiol ar draws ffiniau, lle bo'n briodol, i helpu'r rheini sydd wedi cael plentyn drwy drefniant benthyg croth mewn gwlad dramor i ddod â'r babi i'r DU.

Wrth ystyried taliadau ar gyfer benthyg croth, rydyn ni'n gofyn cwestiynau i gael tystiolaeth gan y rheini fydd yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ynghylch pa daliadau y dylai'r darpar rieni allu eu gwneud i'r fam fenthyg.

## Y GYFRAITH BRESENNOL AR GYFER TREFNIADAU BENTHYG CROTH

Ym Mhenodau 4 a 5 o'r Papur Ymgynghori, rydyn ni'n dweud beth yw'r gyfraith bresennol. Yn gryno, mae'r gyfraith bresennol ym maes benthyg croth yn gyfuniad o ddeddfwriaeth a chyfraith achosion (hynny yw, cyfraith a sefydlwyd gan benderfyniadau'r llys). Y darnau o ddeddfwriaeth pwysicaf sy'n ymwneud â threfniadau benthyg croth yw Deddf Trefniadau Benthyg Croth 1985 a Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008.


Mae Deddf Trefniadau Benthyg Croth 1985 yn rheoleiddio rhywfaint ar drefniadau benthyg croth yn y DU drwy wneud cytundebau i ymrwymo i drefniadau benthyg croth yn anorfodadwy. Er enghraifft, ni fyddai modd gorfodi mam fenthyg i roi'r plentyn i'r darpar rieni dim ond am fod y cytundeb yn dweud mai dyna ddylai hi ei wneud. Mae'r Ddeddf hon yn creu troseddau yng nghyswllt trefniadau benthyg croth hefyd.

Mae cyfraith achosion a Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008 yn darparu'r rheolau sy'n pennu pwy yw rhieni cyfreithiol plentyn sy'n cael ei eni drwy drefniant benthyg croth, ar yr adeg y caiff y plentyn ei eni. Yn ôl y gyfraith, y fam fenthyg fydd mam gyfreithiol y plentyn. Priod neu bartner sifil y fam fenthyg, os oes ganddi un, neu'r darpar dad os mai ei sberm ef a ddefnyddiwyd, fydd tad neu ail riant y plentyn. Yn yr Alban, byddai'r dyn a roddodd y sberm a ffrwythlonodd yr wy yn cael ei ystyried yn rhiant cyfreithiol dim ond os byddai'n mynd ati i wneud yn siŵr mai ei enw ef sydd ar y dystysgrif geni, neu os byddai gorchymyn llys yn cael ei wneud yn datgan mai ef oedd rhiant y plentyn. Mae'n bosibl hefyd i ddarpar riant – dyn neu fenyw – ddefnyddio darpariaethau penodol o Ddeddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008 i fod yn ail riant, eto mewn achosion lle nad oes gan y fam fenthyg briod neu bartner sifil.

Felly ar adeg yr enedigaeth, yn aml iawn, ni fydd dim un o'r darpar rieni – neu ddim mwy nag un ohonyn nhw – yn rhieni cyfreithiol plentyn sy'n cael ei eni yn dilyn trefniant benthyg croth. Er 1994, mae dull cyfreithiol yn bodoli i drosglwyddo'r statws rhiant cyfreithiol i'r darpar rieni ac i ddiddymu statws y fam fenthyg fel rhiant cyfreithiol. Gelwir hyn yn orchymyn rhieni. Ar hyn o bryd, mae'r rheolau sy'n ymwneud â gorchmynion rhieni wedi'u nodi yn adran 54 a 54A o Ddeddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008. Yn ogystal â throsglwyddo'r statws rhiant cyfreithiol, bydd gorchymyn rhieni hefyd yn rhoi i'r darpar rieni gyfrifoldeb rhiant (yng Nghymru a Lloegr) neu gyfrifoldebau rhiant a hawliau rhiant (yn yr Alban). Dyma'r holl ddyletswyddau a'r hawliau sydd gan riant yng nghyswllt ei blentyn, ac maen nhw'n ymwneud â phethau fel gwneud penderfyniadau ynglŷn â lle mae'n byw, ei ofal meddygol a'i addysg, er enghraifft. Nid yw cyfrifoldeb rhiant yn gyfystyr â bod yn rhiant cyfreithiol; ni fydd gan rai rhieni cyfreithiol gyfrifoldeb rhiant, ond mae rhai pobl sydd ddim yn rhieni cyfreithiol  blentyn yn gallu cael cyfrifoldeb rhiant drosto.

Does dim modd gwneud cais am orchymyn rhieni nes bydd y plentyn wedi cael ei eni. All y llys ddim gwneud gorchymyn rhieni lai na chwe wythnos ar ôl genedigaeth y plentyn chwaith. Y rheswm am hyn yw am fod angen caniatâd y fam fenthyg ar gyfer y gorchymyn rhieni, ac yn ôl y gyfraith, dim ond ar ôl i'r cyfnod hwnnw fynd heibio y gall roi ei chaniatâd yn ddilys. Yn ymarferol, mae darpar rieni'n debygol o orfod aros o leiaf chwe mis nes bydd gorchymyn rhieni'n cael ei wneud oherwydd yr amser y bydd yn ei gymryd i'r achos ddod gerbron y llys.

Er 1994, mae'r cwmpas ar gyfer pwy sy'n gallu cael gorchymyn rhieni wedi newid yn sylweddol, gyda'r diwygiadau diweddaraf a wnaed i'r gyfraith yn gadael i ddarpar rieni sengl gael gorchymyn rhieni.



**1 Tachwedd 1994 - 31 Medi 2009**

Cyplau priod o wahanol ryw (doedd cyplau o'r un rhyw ddim yn cael priodi tan 2014)



**6 Ebrill 2010 – heddiw**

Cyplau priod, partneriaid sifil, mewn perthynas deuluol barhaus, partneriaid o'r un rhyw neu o wahanol ryw



**3 Ionawr 2019**


Cyplau priod, partneriaid sifil, mewn perthynas deuluol barhaus, partneriaid o'r un rhyw neu o wahanol ryw, a phobl sengl

Mae'n rhaid bodloni gofynion penodol er mwyn i'r llys wneud gorchymyn rhieni. Mae'r gofynion hynny wedi cael eu dehongli mewn cyfraith achosion, felly dydy hi ddim bob amser yn glir dim ond wrth edrych ar y statud a yw'r gofynion yn cael eu bodloni mewn achos penodol ai peidio.

**Mae hwn yn ddarn o waith hir-ddisgwyliedig a phwysig iawn. Mae degawdau wedi mynd heibio ers i gyfreithiau'r DU ar drefniadau benthyg croth gael eu llunio, a dyna pam mae'r gwaith hwn gan Gomisiwn y Gyfraith mor bwysig. Os oes gennych chi farn ar y mater, mae'n hanfodol eich bod chi'n cymryd rhan yn y broses ac yn ymateb i'r ymgynghoriad.**

Andrew Percy AS, Cadeirydd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Drefniadau Benthyg Croth

### Y gofynion ar gyfer gorchymyn rhieni



Os bydd pob un o'r gofynion yn cael eu bodloni, bydd y llys yn gallu gwneud gorchymyn rhieni. Pan fydd y llys yn ystyried a yw am wneud y gorchymyn ai peidio, ei brif ystyriaeth fydd lles y plentyn drwy gydol ei oes. Yn ymarferol, os bydd y gofynion yn cael eu bodloni, bydd y llys yn gwneud gorchymyn rhieni'n ddi-ffael.

## Y PROBLEMAU GYDA'R GYFRAITH BRESENNOL

**Mae NGA Law a Brilliant Beginnings wedi ymgyrchu i ddiwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â threfniadau benthyg croth am ddegawd a mwy, ac rydyn ni wrth ein bodd bod Comisiwn y Gyfraith wedi cymryd yr awenau gyda'r prosiect hwn. Ar ôl cefnogi dros fil o deuluoedd drwy'r broses o fenthyg croth, rydyn ni'n gweld yr anawsterau sy'n codi o'r gyfraith bresennol bob dydd. Mae'r gyfraith yn hen ffasiwn ac yn anhwylus, a dydy hi ddim yn gwarchod buddiannau'r fam fenthyg, y darpar rieni na'r plant yn briodol.**


Natalie Gamble (NGA Law) a Helen Prosser (Brilliant Beginnings)

Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â threfniadau benthyg croth yn dyddio'n rhannol o ganol y 1980au, pan oedd y gymdeithas ac agweddau at hyn yn wahanol iawn. Yn fyr, mae'r gyfraith sy'n ymwneud â threfniadau benthyg croth wedi dyddio erbyn hyn, ac mae angen ei newid er mwyn adlewyrchu agweddau presennol at y pwnc, a dealltwriaeth ynghylch sut mae'r dull hwn o gael teulu yn gweithio.

Mae'r rheini sydd wedi bod yn rhan o drefniadau benthyg croth wedi dweud wrthyn ni nad yw'r gyfraith yn ateb eu disgwyliadau; mae'n hollbwysig nodi y byddai'r mamau benthyg a'r darpar rieni yn hoffi petai'r plentyn sy'n cael ei eni yn sgil y trefniadau benthyg croth yn cael ei ystyried yn blentyn i'r darpar rieni yn syth ar ôl ei enedigaeth, yn hytrach na gorfod aros i'r statws rhiant gael ei drosglwyddo drwy ddefnyddio'r gorchymyn rhieni.

Mae'r broblem, yn rhannol, yn un ymarferol: gan nad ydyn nhw'n rhieni cyfreithiol, ni fydd gan y darpar rieni gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, a bydd hyn yn effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniadau am y plentyn yn eu gofal. Ond mae'n broblem sy'n ymwneud â hunaniaeth hefyd; byddai'r darpar rieni'n hoffi i'r plentyn fod yn rhan o'u teulu yn syth ar ôl iddo gael ei eni, fel bod y statws rhiant cyfreithiol yn adlewyrchu'r elfennau cymdeithasol a seicolegol o fod yn rhiant. Byddai mamau benthyg yn hoffi petai'r gyfraith yn adlewyrchu'r ffaith nad ydyn nhw'n ystyried eu hunain fel mam y plentyn y maen nhw wedi'i gario ar ran y darpar rieni.

## Y problemau gyda'r gyfraith bresennol a'n cynigion ar gyfer diwygio




Yn ogystal, mae cyfraith achosion wedi ymestyn gofynion y gyfraith i'r graddau nad yw'r gyfraith ei hun yn cyfateb i beth mae'r statud yn ei ddweud erbyn hyn. Un o'r pethau amlycaf yw bod y gyfraith yn dweud ei bod yn rhaid i ddarpar rieni wneud cais am orchymyn rhieni cyn pen chwe mis i'r plentyn gael ei eni. Ond, ers un achos yn 2014, pan benderfynodd y llys y gallai ddehongli hyn i ganiatáu ceisiadau ar ôl y cyfnod hwnnw, dydy'r chwe mis ddim yn berthnasol erbyn hyn yn ymarferol, yng Nghymru a Lloegr o leiaf. Ers hynny, mae'r llys wedi gwneud gorchmynion ar gyfer plant sy'n hŷn na chwe mis oed, a hynny'n aml. Ar ben hyn, mae'r llys wedi dehongli'r gofyn sy'n nodi ei bod yn rhaid i'r plentyn fyw gyda'r ddau riant i gynnwys sefyllfaoedd lle mae'r plentyn yn symud rhwng cartref dau riant sydd wedi gwahanu.

Cydnabyddir yn gyffredinol fod angen diwygio'r gyfraith yn sylweddol.

**Mae pawb yn cydnabod bod pryderon teg ynglŷn â'r frwydr mae deddfwriaeth a pholisïau ym maes benthyg croth yn ei hwynebu i ddal i fyny ag agweddau a ffyrdd o fyw yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r ddeddfwriaeth hon wedi'i seilio i raddau helaeth ar feddyliau a dadleuon o'r 1980au. Rydyn ni'n sylweddoli bod strwythurau teuluol yn fwy amrywiol o lawer erbyn hyn nag yr oedden nhw pan oedd y polisïau a'r ddeddfwriaeth yn cael eu llunio'n wreiddiol.**

Y Farwnes Chisholm o Owlpen

Felly mae'r cwmpas ar gyfer ein prosiect ni i ddiwygio'r gyfraith yn eang iawn.

**Cylch gorchwyl**

Y gyfraith, rheoliadau ac ymarfer ym maes benthyg croth, gan gynnwys:

- Deddf Trefniadau Benthyg Croth 1985
- adrannau perthnasol o Ddeddfau Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990 a 2008
- y gyfraith reoleiddiol a theulu ac ymarfer yn y maes, i'r graddau y maen nhw'n berthnasol i drefniadau benthyg croth
- trefniadau benthyg croth domestig a rhyngwladol
- gwybodaeth am wreiddiau'r plentyn, o ran geneteg a'r fam a gariodd y plentyn, yng nghyd-destun benthyg croth
- yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar rannau eraill o'r gyfraith.

## LLWYBR NEWYDD AT FOD YN RHIENI CYFREITHIOL


Yn y diagram ar y dudalen nesaf, rydyn ni'n dangos ein cynigion i greu llwybr newydd at fod yn rhieni cyfreithiol mewn achosion o fenthyg croth. Nod y llwybr newydd yw creu ffordd i'r darpar rieni ddod yn rhieni cyfreithiol y plentyn o'r adeg y caiff ei eni. Mae'r cynnig hwn yn ymateb i anghenion a bwriadau cyffredin y rheini sy'n rhan o drefniadau benthyg croth; yn benodol, mae safbwyntiau'r mamau benthyg y siaradwyd â nhw wedi bod yn glir iawn – dydyn nhw ddim yn dymuno bod yn rhiant cyfreithiol i'r plentyn maen nhw'n ei gario.

Ym Mhenodau 7 ac 8 o'r Papur Ymgynghori, rydyn ni'n esbonio'r cyd-destun ar gyfer y diwygiadau rydyn ni'n eu hawgrymu, ac yna'n mynd ymlaen i amlinellu ein cynigion. Mae'r llwybr newydd ar gyfer bod yn rhiant cyfreithiol yn mynd o'i chwmpas hi mewn ffordd wahanol i'r llwybr presennol o gael gorchymyn rhieni. Ein cynnig dros dro ni yw na ddylai'r llwybr olygu cais i'r llys.
Yn hytrach na hynny, rydyn ni'n cynnig proses weinyddol drwyadl gyda mesurau diogelu'n rhan ohoni. Drwy ddilyn y broses hon, byddai'r darpar rieni'n dod yn rhieni cyfreithiol i'r plentyn ar ei enedigaeth. Rydyn ni'n cynnig mesur diogelu arall ar ôl i'r plentyn gael ei eni hefyd; cyfle, am gyfnod penodol ar ôl yr enedigaeth, i'r fam fenthyg wrthwynebu i'r darpar rieni fod yn rhieni cyfreithiol i'r plentyn. Os bydd y fam fenthyg yn gwrthwynebu, ni fydd y trefniant benthyg croth yn gallu parhau i fod yn rhan o'r llwybr newydd, a bydd yn rhaid i'r darpar rieni wneud cais am orchymyn rhieni yn lle hynny (rydyn ni'n nodi gofynion llwybr y gorchymyn rhieni yn y diagram ar dudalen 13). Bydd yr hawl hon i wrthwynebu yn gwneud yn siŵr bod hawliau'r fam fenthyg yn cael eu gwarchod a'u parchu'n llwyr o dan y llwybr newydd.

Dydy'r llwybr newydd ddim yn cymryd lle'r llwybr gorchymyn rhieni fel ffordd i ddarpar rieni ddod yn rhieni cyfreithiol. Rydyn ni'n cynnig mai dim ond ar gyfer trefniadau benthyg croth lle mae holl elfennau'r broses yn digwydd yn y Deyrnas Unedig (rydyn ni'n cyfeirio at y rhain fel trefniadau "domestig") y dylai'r llwybr newydd fod yn addas. Os bydd darpar rieni'n ceisio bod yn rhieni cyfreithiol i blentyn sy'n cael ei eni yn dilyn trefniadau benthyg croth rhyngwladol, rydyn ni o'r farn y dylai fod yn rheidrwydd ar y darpar rieni hynny i gael gorchymyn rhieni ar ôl i'r plentyn gael ei eni. Rydyn ni hefyd yn cynnig amodau llym y bydd yn rhaid eu bodloni er mwyn i'r trefniant benthyg croth fod yn gymwys ar gyfer y llwybr newydd. Os na fydd yr amodau llym hynny'n cael eu bodloni, bydd yn rhaid i'r darpar rieni wneud cais am orchymyn rhieni er mwyn bod yn rhieni cyfreithiol.

Teimlwn fod y llwybr newydd yn diogelu lles y plentyn yn well na'r gyfraith bresennol. Mae'n sicrhau mai'r rheini y bydd y plentyn yn byw gyda nhw ar ôl cael ei eni yw ei rieni cyfreithiol, ac yn cyflwyno mesurau diogelu mwy llym hefyd cyn i'r plentyn gael ei genhedlu. Rydyn ni o'r farn y byddai'r asesiad o les y plentyn cyn iddo gael ei genhedlu – fel y byddai'n digwydd fel rhan o'r llwybr newydd – yn cael gwared â'r angen am asesiad o'r fath ar ôl iddo gael ei eni. Rydyn ni'n cynnig y bydd y statws rhieni cyfreithiol hefyd yn golygu cyfrifoldeb rhiant i'r darpar rieni dros y plentyn o'i enedigaeth ymlaen, ar yr amod bod y plentyn yn byw gyda nhw, neu'n cael gofal ganddyn nhw (gall yr olaf gynnwys sefyllfaoedd lle mae'r plentyn mewn ysbyty, er enghraifft).

## Y llwybr newydd tuag at fod yn rhieni cyfreithiol



Fel y gwelwch o'r diagram, rydyn ni'n teimlo y dylai'r broses y mae'r darpar rieni'n ei dilyn i fod yn rhieni cyfreithiol ddechrau cyn i'r plentyn gael ei genhedlu. Yn y llwybr gorchymyn rhieni presennol, dim ond ar ôl i'r plentyn gael ei eni y bydd y gwaith archwilio'n digwydd. Bryd hynny, i ryw raddau, does dim modd i'r llys wneud rhyw lawer, wedi'r cyfan, mae'r plentyn wedi cyrraedd erbyn hynny ac mae'r darpar rieni'n gofalu amdano. Rydyn ni'n credu y byddai gofynion gweithdrefnol, a fyddai ar waith cyn i'r plentyn gael ei genhedlu, yn arwain at gyfle mwy ystyrlon i edrych yn fanwl ar y cytundeb benthyg croth.

### Cytundeb ysgrifenedig ar gyfer y trefniant benthyg croth

Ym Mhennod 8 o'r Papur Ymgynghori, rydyn ni'n nodi'r angen i bob parti sy'n rhan o drefniant benthyg croth ymrwymo i gytundeb ysgrifenedig cyn i'r plentyn gael ei genhedlu. Byddai'r cytundeb hwn yn cofnodi'r pethau hyn:

- manylion pob parti
- manylion unrhyw roddwr neu roddwyr
- cydymffurfedd â'r mesurau diogelu
- asesiad o les y plentyn a fydd yn cael ei genhedlu
- y statws rhieni cyfreithiol a fydd yn cael ei roi i'r darpar rieni pan fydd y plentyn yn cael ei eni
- hawl y fam fenthyg i wrthwynebu.

### Mesurau diogelu ar gyfer y llwybr newydd

Ym Mhennod 13 o'r Papur Ymgynghori, rydyn ni'n trafod yn fanwl beth yw'r gofynion y cynigir ei bod yn rhaid eu bodloni ar gyfer cytundeb benthyg croth er mwyn gallu bod yn rhan o'r llwybr newydd, ac er mwyn i'r darpar rieni allu bod yn rhieni cyfreithiol ar enedigaeth y plentyn yn sgil hynny. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cytundeb ysgrifenedig rhwng y fam fenthyg a'r darpar rieni
- asesiad o les y plentyn a fydd yn cael ei eni yn sgil y trefniadau benthyg croth
- bod y darpar rieni a'r fam fenthyg yn cael cyngor cyfreithiol annibynnol ar y gyfraith ac ar effaith y cytundeb
- bod y darpar rieni, y fam fenthyg a phriod, partner sifil neu bartner y fam fenthyg (os oes ganddi un) yn cael cwnsela ar gyfer goblygiadau hyn
- bod y darpar rieni, y fam fenthyg a phriod, partner sifil neu bartner y fam fenthyg (os oes ganddi un) yn cael eu sgrinio'n feddygol
- bod archwiliad o gofnodion troseddol yn cael ei gynnal ar gyfer y darpar rieni, y fam fenthyg a phriod, partner sifil neu bartner y fam fenthyg (os oes ganddi un).

## CYSYLLTIAD GENETIG

Ar hyn o bryd, un o'r gofynion ar gyfer cael gorchymyn rhieni yw ei bod yn rhaid i un o'r darpar rieni ddarparu wyau neu sberm er mwyn cenhedlu'r plentyn. Rydyn ni'n trafod yr angen hwn i gael cysylltiad genetig ag un o'r rhieni ym Mhennod 12 o'r Papur Ymgynghori. Yn ein tyb ni, yn yr achosion a fydd yn dod yn rhan o'r llwybr newydd, gellir dadlau'n gryf nad oes angen cysylltiad genetig. Byddai cael gwared ar hwn yn adlewyrchu'r farn bod bwriad cyffredin y darpar rieni, a'r fam fenthyg a fydd yn dod â'r plentyn i'r byd i'r rhieni ei fagu, yn bwysicach na phwy yw rhieni genetig y plentyn yn y trefniant benthyg croth. Fodd bynnag, er bod bwriadau cyffredin yn bwysicach, mae'r gofyn am gysylltiad genetig yn darparu mesurau diogelu pwysig, er enghraifft, drwy roi tystiolaeth bod y darpar rieni am i'r plentyn gael ei genhedlu.

Felly, fel cynnig dros dro, rydyn ni am i'r cysylltiad genetig gael ei dynnu dim ond mewn achosion lle mae hynny'n angenrheidiol o safbwynt meddygol, lle nad yw'r darpar rieni'n gallu cyfrannu sberm neu wyau am resymau meddygol. Rydyn ni'n gofyn a ddylai'r un peth fod yn wir ar gyfer trefniant sy'n defnyddio'r llwybr gorchymyn rhieni. Wedi dweud hyn, rydyn ni'n cynnig y dylid cadw'r gofyn am gysylltiad genetig ar gyfer trefniadau benthyg croth rhyngwladol. Petai'r gofyn yn cael ei ddileu mewn achosion rhyngwladol, teimlwn y byddai hynny'n arwain at risg annerbyniol o gamddefnyddio trefniadau benthyg croth at ddibenion masnachu mewn plant.

## RHEOLEIDDIO TREFNIADAU BENTHYG CROTH

Wrth greu llwybr newydd, teimlwn fod angen mynd ati'n well i reoleiddio trefniadau benthyg croth, er mwyn sicrhau bod pawb yn cadw at y mesurau diogelu newydd. Rydyn ni'n gwneud cynigion am reoleiddio trefniadau benthyg croth ym Mhennod 9 o'r Papur Ymgynghori. Rydyn ni'n cynnig y dylai fod yn bosibl creu "sefydliadau benthyg croth sy'n cael eu rheoleiddio" – sefydliadau a fyddai'n gallu monitro i wneud yn siŵr bod pobl yn cydymffurfio â gofynion y llwybr newydd.

Yn ein barn ni, dylai'r sefydliadau hyn gael un brif swyddogaeth mai nhw'n unig sy'n gyfrifol am ei chyflawni, o ran y llwybr newydd o leiaf. Y swyddogaeth honno yw darparu beth rydyn ni'n ei alw'n "wasanaethau paru a hwyluso". Mae'r gwasanaethau hyn, sy'n cael eu darparu mewn ffyrdd gwahanol gan sefydliadau presennol sy'n ymwneud â threfniadau benthyg croth, yn cynnwys casglu gwybodaeth am ddarpar rieni a menywod sy'n fodlon bod yn famau benthyg, helpu pawb i wneud trefniadau (drwy baru'r fam fenthyg a'r darpar rieni weithiau) a rhoi cyngor a chymorth i bawb drwy gydol y broses.

Os defnyddir IVF, bydd clinigau'n rhan o'r broses benthyg croth hefyd, ac fe allen nhw fod yn gyfrifol am fonitro cydymffurfedd. Fodd bynnag, nid yw'n debygol iawn y bydd clinigau'n cael eu defnyddio mewn trefniadau traddodiadol. Fe fydden ni'n hoffi i gynifer o drefniadau domestig ag y bo modd allu bod yn gymwys ar gyfer y llwybr newydd, felly os bydd trefniadau traddodiadol yn dod yn rhan o'r llwybr newydd (fel rydyn ni'n ei gynnig), byddai sefydliadau benthyg croth sy'n cael eu rheoleiddio yn gallu eu goruchwylio i wneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â gofynion y llwybr newydd.

Rydyn ni'n cynnig y dylai'r sefydliadau hyn, fel clinigau, gael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol. Teimlwn y dylai'r broses o reoleiddio sefydliadau benthyg croth sy'n cael eu rheoleiddio fod ar lefel briodol er mwyn sicrhau nad oes gormod o faich rheoleiddiol yn cael ei roi ar eu hysgwyddau.

Credwn fod ein cynigion ni ar y statws rhieni cyfreithiol yn seiliedig ar gonsensws o ran beth fyddai'n gweithio orau i'r rheini y mae'r gyfraith benthyg croth yn cael yr effaith fwyaf uniongyrchol arnyn nhw; hynny yw, y rheini sy'n ymrwymo i'r trefniadau hyn, a'r plant sy'n cael eu geni drwy drefniadau benthyg croth. Credwn hefyd fod ein cynigion yn adlewyrchu ymreolaeth menywod sydd wedi dweud wrthym nad yw'r gyfraith bresennol yn cyfleu beth maen nhw am ei weld yn digwydd ar ôl cytuno i fod yn fam fenthyg. Er hynny, rydyn ni'n sylweddoli bod sawl safbwynt ar fenthyg croth, ac na fydd pawb yn cytuno â'n casgliadau dros dro. Ym Mhennod 8 o'r Papur Ymgynghori, rydyn ni wedi cynnwys adran sy'n nodi opsiynau amgen, ac rydyn ni hefyd yn gofyn cwestiynau am y gwahanol fodelau ar gyfer dod yn rhieni cyfreithiol mewn achosion o fenthyg croth. Y gobaith yw y bydd ein Papur Ymgynghori yn ysbrydoli trafodaeth agored ac yn annog y rheini sy'n ymateb i fynegi eu barn, p'un ai a ydyn nhw'n cytuno â'n cynigion ni ai peidio.

## DILYN Y LLWYBR GORCHYMYN RHIENI ER MWYN BOD YN RHIENI CYFREITHIOL

Fel rydyn ni wedi'i egluro, rydyn ni am i orchmynion rhieni barhau, ochr yn ochr â'r llwybr newydd rydyn ni wedi'i gynnig. Felly, mae'r Papur Ymgynghori'n awgrymu cynigion i ddiwygio'r llwybr hwn hefyd.

### Y llwybr gorchymyn rhieni

Mae'r diagram isod yn rhoi trosolwg o'r llwybr gorchymyn rhieni

Y darpar rieni a'r fenyw sy'n fodlon bod yn fam fenthyg yn cytuno i ymrwymo i gytundeb benthyg croth

↓

Cenhedlu

↓

Geni

↓

Cofrestru'r fam fenthyg (a'i phriod neu'i phartner sifil o bosibl) fel rhieni cyfreithiol y plentyn

↓

Y darpar rieni'n gwneud cais i'r llys am orchymyn rhieni

↓

Y swyddog priodol yn paratoi adroddiad gorchymyn rhieni i'r llys sy'n ymchwilio i'r gofynion sydd eu hangen er mwyn i'r llys allu gwneud gorchymyn rhieni, ac a ddylai'r llys roi'r gorchymyn er lles y plentyn

↓

**Gwrandawiad llys terfynol ar gyfer y gorchymyn llys**

Os bydd y gorchymyn rhieni'n cael ei roi, bydd y darpar rieni'n dod yn rhieni cyfreithiol y plentyn yn lle'r fam fenthyg (a'i phriod neu'i phartner sifil o bosibl), a bydd tystysgrif geni newydd yn cael ei roi ar gyfer y plentyn.

Os bydd y gorchymyn rhieni'n cael ei wrthod, bydd y fam fenthyg (a'i phriod neu'i phartner sifil o bosibl) yn parhau i fod yn rhieni cyfreithiol i'r plentyn. Yna mae'n bosibl y gofynnir i'r llys ateb cwestiwn arall, sef gyda phwy ddylai'r plentyn fyw.

Dim ond i'r llwybr gorchymyn rhieni y mae rhai o'r diwygiadau rydyn ni'n eu cynnig yn berthnasol, ac mae'r rhain yn cael eu trafod ym Mhennod 11. Yn y bennod honno, rydyn ni'n nodi ein cynnig i gael gwared â'r cyfnod o chwe mis ar gyfer gwneud cais am orchymyn rhieni oherwydd nid yw hyn yn cael ei roi ar waith yn ymarferol erbyn hyn, fel yr eglurwyd yn flaenorol. Rydyn ni hefyd yn ystyried y gofyn i fam fenthyg (ac unrhyw riant cyfreithiol arall – er enghraifft, priod y fam fenthyg) roi caniatâd ar gyfer gwneud y gorchymyn rhieni. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid cael y caniatâd hwn ar gyfer gorchymyn rhieni – ychydig iawn o eithriadau sydd. Yn ein barn ni – os yw hyn er lles plentyn sy'n byw gyda'r darpar rieni (neu y mae'r llys wedi penderfynu y dylai fyw gyda'r darpar rieni) – dylai'r llys gael y gallu i gael gwared â'r gofyn hwn am ganiatâd, a chadw'r gallu i wneud gorchymyn rhieni, mewn achosion lle mae hynny er budd pennaf y plentyn.

Ym Mhennod 8 o'r Papur Ymgynghori, yn wahanol i'r sefyllfa bresennol, rydyn ni'n cynnig y dylai darpar rieni gael cyfrifoldeb rhiant yn awtomatig os yw'r plentyn yn byw gyda nhw, neu yn eu gofal nhw, a'u bod yn bwriadu gwneud cais am orchymyn rhieni.

Ym Mhennod 6 o'r Papur Ymgynghori, rydyn ni'n gwneud cynigion i ddiwygio rhywfaint ar y drefn ar gyfer cael gorchymyn rhieni, ac yn holi am newid y modd y mae achosion sy'n ymwneud â benthyg croth yn cael eu dyrannu i farnwyr ar wahanol lefelau yng Nghymru a Lloegr.

Rydyn ni'n crynhoi'r gwahaniaethau rhwng y llwybr newydd a'r llwybr gorchymyn rhieni (gan gymryd y bydd y llwybr hwn yn cael ei ddiwygio yn y modd a gynigiwyd yn flaenorol) yn y diagram isod.

### Y llwybr newydd o'i gymharu â'r llwybr gorchymyn rhieni

| | Y llwybr newydd | Y llwybr gorchymyn rhieni |
|---|---|---|
| **Mae'n caniatáu trefniadau benthyg croth traddodiadol a chario yn unig** | ✓ | ✓ |
| **Mae'n caniatáu trefniadau benthyg croth rhyngwladol** | ✗ | ✓ |
| **Mae'n caniatáu trefniadau benthyg croth annibynnol sy'n digwydd y tu allan i glinig trwyddedig neu sefydliad benthyg croth sy'n cael ei reoleiddio** | ✓ | ✓ |
| **Mae'n cynnwys mesurau diogelu gorfodol, cyn ymrwymo i drefniant benthyg croth, er mwyn diogelu pawb sy'n rhan o'r trefniadau** | ✓ | ✗ |
| **Os nad yw'r fam fenthyg yn gwrthwynebu o fewn cyfnod penodol, y darpar rieni fydd rhieni cyfreithiol y plentyn pan fydd yn cael ei eni – ni fydd angen gwneud cais i'r llys am orchymyn rhieni** | ✓ | ✗ |
| **Asesiad gan swyddog priodol ar ôl i'r plentyn gael ei eni** | ✗ | ✓ |
| **Gwrandawiad llys ar ôl i'r plentyn gael ei eni i gael gorchymyn rhieni** | ✗ | ✓ |
| **Mynediad at gofrestr genedlaethol newydd** | ✓ | ✓ |

## DIWYGIADAU SY'N BERTHNASOL I'R LLWYBR NEWYDD AC I'R LLWYBR GORCHYMYN RHIENI

Byddai rhai o'r diwygiadau rydyn ni'n eu cynnig yr un mor berthnasol i'r llwybr newydd ac i'r llwybr gorchymyn rhieni. Rydyn ni eisoes wedi esbonio ein safbwyntiau o ran y gofyn presennol am gysylltiad genetig, sy'n cael ei drafod ym Mhennod 12. Hefyd ym Mhennod 12, rydyn ni'n cynnig y dylid ymestyn y sail i ddarpar rieni fod yn gymwys ar gyfer y llwybr newydd, neu i wneud cais am orchymyn rhieni. Rydyn ni'n dod i'r casgliad bod y gofyn presennol sy'n ymwneud â domisil (cysyniad cyfreithiol sy'n mynnu bod unigolyn wedi gwneud gwlad yn gartref parhaol iddo) yn rhwystr diangen rhag cael gorchymyn rhieni i rai darpar rieni sy'n byw yn y DU. Felly rydyn ni'n cynnig gofyn cymhwysedd amgen ychwanegol, sef cartref cyson (cysyniad, at y dibenion hyn, sy'n seiliedig ar bresenoldeb corfforol unigolyn mewn gwlad a'r modd y mae wedi integreiddio i amgylchedd cymdeithasol a theuluol).

Yng ngweddill Pennod 12, rydyn ni'n trafod ac yn gofyn cwestiynau am y gofynion sy'n bodoli naill ai yn y gyfraith bresennol, fel y gofynion ynglŷn â statws perthynas yr ymgeiswyr a chartref y plentyn gyda'r darpar rieni, neu a allai fod yn rhan o gyfraith ddiwygiedig. Fel rhan o'n cynnig dros dro, rydyn ni'n meddwl y dylid gosod isafswm oed, sef 18 oed, i fenyw fod yn fam fenthyg, fel bod hyn yn cyfateb i'r hyn sy'n bodoli'n barod ar gyfer darpar rieni. Nid ydym yn cynnig uchafswm oed i fenywod fod yn famau benthyg, ac nid ydym chwaith yn cynnig un ar gyfer darpar rieni yn y llwybr gorchymyn rhieni. Serch hynny, rydyn ni yn holi a ddylid cael uchafswm oed i ddarpar rieni gael mynediad at y llwybr newydd.


## MYNEDIAD AT WYBODAETH AM DREFNIADAU BENTHYG CROTH

Ym Mhennod 10, rydyn ni'n nodi cynigion dros dro ynghylch gallu plentyn sy'n cael ei eni drwy drefniadau benthyg croth i gael mynediad at wybodaeth lawn ynglŷn â sut cafodd ei genhedlu a'i eni.

**Mae angen diwygio'r gyfraith benthyg croth er mwyn rhoi anghenion a hawliau dynol pobl sydd wedi'u geni drwy drefniadau benthyg croth yn gyntaf ac yn bennaf – sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth am eu cefndir o ran geneteg a'r fam sydd wedi'u cario yn y groth; deall bod gan bawb a oedd yn rhan o'r broses o'u cenhedlu a'u genedigaeth gyfrifoldebau gydol eu hoes; sicrhau bod safonau rhyngwladol sy'n gwahardd gwerthu plant yn cael eu bodloni; atal achosion o ddiffyg dinasyddiaeth; a gwella prosesau rheoleiddio.**

Dr Marilyn Crawshaw, Cadeirydd y Grŵp Prosiect ar Atgenhedlu gyda Chymorth (PROGAR)

## Mynediad at wybodaeth



### Y llwybr newydd

Os yw’r trefniant benthyg croth yn cynnwys sefydliad benthyg croth sy'n cael ei reoleiddio a/neu glinig ffrwythlondeb trwyddedig – mae’n rhaid i’r clinig ffrwythlondeb trwyddedig a/neu’r sefydliad benthyg croth sy'n cael ei reoleiddio gasglu a chofnodi gwybodaeth am y darpar rieni, y fam fenthyg a’r rheini sydd wedi rhoi wyau neu sberm

### Y llwybr gorchymyn rhieni

Byddai gwybodaeth am y darpar rieni, y fam fenthyg a’r sawl sydd wedi rhoi’r wyau neu'r sberm yn cael ei chymryd o ffurflenni llys wedi’u diweddaru, a fyddai’n mynnu bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys, ynghyd â thystiolaeth ategol, er enghraifft prawf DNA

### Y gofrestr genedlaethol o drefniadau benthyg croth

Bydd manylion dilys y fam fenthyg, y darpar rieni ac unrhyw un sydd wedi rhoi wyau neu sberm yn cael eu cofnodi ar y gofrestr

*Mynediad at wybodaeth na fyddai modd adnabod rhywun oddi wrthi




*Mynediad at wybodaeth y byddai modd adnabod rhywun oddi wrthi




*Rhaid rhoi cyfle addas i’r unigolyn sydd wedi cael ei eni drwy drefniadau benthyg croth gael cynnig cwnsela ynghylch goblygiadau’r cais.

## Cofrestr genedlaethol o drefniadau benthyg croth

Un o'n cynigion dros dro yw y dylid creu cofrestr genedlaethol o drefniadau benthyg croth a fyddai'n cofnodi'r wybodaeth ganlynol yng nghyswllt pob plentyn sy'n cael ei eni o ganlyniad i drefniadau benthyg croth:

- pwy yw'r darpar rieni
- pwy yw'r fam fenthyg
- gwybodaeth a fydd yn ei gwneud yn bosibl gwybod pwy ddarparodd yr wy a'r sberm, i gael mynediad ati ar adeg briodol

Mae ein cynnig dros dro hefyd yn argymell y dylai rhywun sydd wedi cael ei eni drwy drefniadau benthyg croth allu cael gafael ar wybodaeth sy'n dangos pwy yw'r bobl hyn pan fyddan nhw'n 18 oed.

Rydyn ni'n holi a ddylai gwybodaeth sydd ddim yn datgelu pwy yw rhywun – er enghraifft, taldra, pwysau, grŵp ethnig, hanes meddygol, swydd, diddordebau – gael ei chofnodi ar gyfer y fam fenthyg a'r darpar rieni (mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi'n barod ar gyfer y rheini sy'n rhoi wyau a sberm). Os felly, rydyn ni'n cynnig y dylai'r person ifanc allu cael gafael ar y wybodaeth hon pan fydd yn 16 oed, fel sy'n digwydd yn barod ar gyfer plant sydd wedi'u cenhedlu gyda chymorth rhoddwyr sberm ac wyau.

Ein cynnig dros dro ni yw y dylai'r llwybr newydd fynnu bod y wybodaeth uchod yn cael ei chofnodi ar y gofrestr genedlaethol cyn cofrestru genedigaeth y plentyn. I'r rheini sy'n dilyn y llwybr gorchymyn rhieni, rydyn ni'n gofyn a ddylai fod yn ofynnol i roddwyr wyau a sberm gael eu cofnodi ar y gofrestr, gan gofio'r effaith negyddol y byddai atal gorchymyn rhieni yn ei chael ar blentyn, gan fod sberm wedi cael ei roi'n ddienw, dyweder. Fodd bynnag, allwn ni ddim gweld bod unrhyw reswm pam na ddylai manylion y fam fenthyg gael eu cynnwys yn y gofrestr.

Rydyn ni hefyd yn gwneud cynigion i drwsio man gwan yn y gyfraith, yng Nghymru a Lloegr, er mwyn i'r rheini sy'n cael eu geni yn sgil trefniadau benthyg croth y tu allan i'r llwybr newydd allu cael gafael ar eu tystysgrif geni wreiddiol, ac fel bod tystysgrif geni lawn y rheini sy'n cael eu geni yn sgil trefniadau yn y llwybr newydd yn dangos bod y trefniadau benthyg croth wedi bodoli (yn unol â'r sefyllfa bresennol).

Ym Mhennod 10, rydyn ni hefyd yn gofyn rhagor o gwestiynau ynghylch a ddylid cael darpariaeth i ganiatáu i'r rheini sy'n gysylltiedig â threfniadau benthyg croth, mewn gwahanol ffyrdd, wybod pwy yw'r naill a'r llall.

## TALIADAU I'R FAM FENTHYG GAN Y DARPAR RIENI




Ym Mhenodau 14 a 15 o'r Papur Ymgynghori, trafodir taliadau gan y darpar rieni i'r fam fenthyg. Ym Mhennod 14, nodir pa daliadau sy'n cael eu gwneud o dan y gyfraith bresennol sy'n caniatáu costau rhesymol, beth mae menywod yn ei gael ar hyn o bryd am fod yn fam fenthyg yn ôl y gyfraith, beirniadaeth o'r gyfraith bresennol, a'r ddadl ynghylch a ddylid gallu talu menyw am y gwasanaeth o fod yn fam fenthyg. Rydyn ni hefyd yn edrych ar y gyfraith sy'n bodoli mewn gwahanol wledydd yn hyn o beth.

Un o'r pwyntiau pwysicaf yn y gyfraith sy'n ymwneud â benthyg croth yw pa daliadau y dylai'r darpar rieni allu eu gwneud i fenyw sy'n dod yn fam fenthyg iddyn nhw. Mae'n bwnc sy'n ennyn pob math o safbwyntiau gwrthwynebus hefyd, a'r rheini'n rhai cryf. O ganlyniad, nid oes gennym unrhyw gynigion dros dro ynghylch pa daliadau y dylai menyw allu eu cael am fod yn fam fenthyg. Yn hytrach, ym Mhennod 15, rydyn ni'n rhannu'r taliadau posibl y gellid eu gwneud yn wahanol gategorïau. Ar gyfer pob categori, rydyn ni'n gofyn am farn ynghylch a ddylid caniatáu'r taliadau hyn. Rydyn ni hefyd yn edrych ar sut y gellir gorfodi cyfyngiadau ar daliadau, ac yn cynnig dros dro y dylai'r fam fenthyg allu gorfodi taliadau sy'n ddyledus iddi fel rhan o gytundeb benthyg croth (yn dilyn ein cynnig dros dro ym Mhennod 9, sef y dylai cytundebau benthyg croth fod yn anorfodadwy ar gyfer pob diben arall).

Mae'r diagram isod yn nodi'r gwahanol gategorïau ar gyfer taliadau i famau benthyg gan y darpar rieni, yr ydyn ni'n gofyn cwestiynau amdanyn nhw.

**Taliadau wedi'u rhannu'n Gategorïau**



## TREFNIADAU BENTHYG CROTH RHYNGWLADOL




Mae Pennod 16 o'r Papur Ymgynghori yn edrych ar drefniadau benthyg croth rhyngwladol; hynny yw, trefniadau lle mae darpar rieni o'r DU yn mynd dramor i ymrwymo i drefniant benthyg croth, a lle mae darpar rieni o wledydd eraill yn dod i'r DU i wneud yr un fath. Er ei bod yn anodd dweud yn sicr, mae'n debyg y gallai trefniadau benthyg croth rhyngwladol gyfrif am hyd at hanner y trefniadau benthyg croth y mae darpar rieni o'r DU yn ymrwymo iddyn nhw. Rydyn ni'n dymuno ystyried y trefniadau hyn yn ein papur, gan gydnabod ar yr un pryd mai dim ond hyn a hyn y gall diwygio'r gyfraith genedlaethol ei wneud wrth ymdrin â mater rhyngwladol.

**Dyma dri maes pwysig ar gyfer trefniadau benthyg croth rhyngwladol:**

### Cenedligrwydd

Y gyfraith cenedligrwydd sy'n penderfynu pwy sy'n ddinesydd Prydeinig. Gall problemau godi i blentyn sydd wedi cael ei eni drwy drefniadau benthyg croth mewn gwlad sy'n ei gydnabod fel plentyn darpar rieni o'r DU, lle mae cyfraith y DU yn edrych ar y plentyn fel plentyn y fam fenthyg. Yn sgil hyn, mae'n bosibl na fydd gan y plentyn hawl i ddinasyddiaeth yn unrhyw un o'r gwledydd pan fydd yn cael ei eni. Drwy wneud gorchymyn rhieni, lle mae o leiaf un o'r darpar rieni'n ddinesydd Prydeinig, bydd y plentyn yn cael ei gydnabod fel dinesydd Prydeinig.

### Mewnfudo

Y gyfraith mewnfudo sy'n penderfynu pwy sy'n cael dod i'r DU. Mae dau lwybr swyddogol sy'n gadael i blentyn a gaiff ei eni drwy drefniant benthyg croth rhyngwladol wneud hyn: mae un wedi'i gynnwys yn y Rheolau Mewnfudo ac yn ddibynnol ar gael un darpar riant sy'n cael ei gydnabod fel rhiant yn unol â chyfraith y DU ar genedligrwydd. Dydy'r llwybr arall ddim yn dod o dan y rheolau hyn. Yn hytrach, mae'n fater o ddisgresiwn yr Ysgrifennydd Gwladol, ac mae'n ddibynnol ar fwriad i wneud cais am orchymyn rhieni unwaith y bydd y teulu wedi dod yn ôl i'r DU. Byddai modd i blentyn ddod i'r DU hefyd os yw wedi cael dinasyddiaeth gwlad arall wrth gael ei eni – a bod dim angen i ddinasyddion y wlad honno gael fisa i ddod i'r DU (er enghraifft, Unol Daleithiau America).

### Rhieni cyfreithiol

Yn y DU, mae pwy yw rhieni cyfreithiol plentyn sydd wedi'i eni drwy drefniadau benthyg croth mewn gwlad dramor yn cael ei benderfynu yn union yr un ffordd ag achosion o fenthyg croth domestig. Mae hynny'n golygu, yn y DU, y fam fenthyg (a'i phriod neu'i phartner sifil) fydd y rhieni cyfreithiol, a bydd angen i'r darpar rieni wneud cais am orchymyn rhieni. Er y bydd plentyn sydd wedi'i eni yn sgil trefniant benthyg croth rhyngwladol yn cael ei gydnabod fel plentyn cyfreithiol y darpar rieni yn y wlad lle mae'n cael ei eni o bosibl (er enghraifft, yn Unol Daleithiau America), ac y bydd o bosibl yn gallu cael pasbort Prydeinig, bydd gwrthdaro o hyd, oherwydd ni fydd y DU yn cydnabod y darpar rieni fel rhieni cyfreithiol nes bydd gorchymyn rhieni wedi cael ei roi.

O ran cyfraith cenedligrwydd, nod ein cynnig yw symleiddio a byrhau'r broses sy'n caniatáu i blentyn gael pasbort, a hynny drwy gynnig y dylai'r broses o wneud cais ddechrau cyn i'r plentyn gael ei eni.

O ran mewnfudo, unwaith eto, rydyn ni'n cynnig am y tro y gallai'r broses o wneud cais am fisa ddechrau cyn i'r plentyn gael ei eni. Rydyn ni hefyd yn cynnig y dylai'r llwybr sy'n bodoli y tu allan i'r Rheolau Mewnfudo gael ei ffurfioli drwy ei gynnwys yn y Rheolau.

Fel rhan o'n cynnig dros dro, rydyn ni'n dweud y dylai'r gyfraith roi'r gallu i gydnabod y statws rhieni cyfreithiol y mae'r darpar rieni'n ei gael mewn gwledydd eraill yn awtomatig, heb orfod gwneud cais am orchymyn rhieni yn y DU. Wedi dweud hyn, dylai'r gydnabyddiaeth gael ei rhoi ar sail gwlad, pan fydd y llywodraeth wedi gweld bod cyfreithiau ac arferion y wlad dan sylw yn diogelu lles y plentyn ac yn gwneud yn siŵr nad oes neb yn camfanteisio ar y fam fenthyg.

Rydyn ni hefyd yn cynnig dros dro y dylai'r llywodraeth roi canllawiau cynhwysfawr i ddarpar rieni ynglŷn â chanlyniadau cael plentyn drwy drefniant benthyg croth rhyngwladol, o safbwynt cenedligrwydd a mewnfudo. Mae llawer o ffynonellau ar gael gan y llywodraeth ar hyn o bryd, ac nid ydynt bob amser yn gyson, felly byddai'r canllawiau newydd yn gallu disodli'r rhain.

Mae'r bennod hefyd yn gofyn cwestiynau am brofiadau'r rheini sydd wedi bod yn rhan o drefniadau benthyg croth rhyngwladol, er mwyn cael tystiolaeth, ac am drefniadau lle mai'r DU yw'r gyrchfan ar gyfer benthyg croth i ddarpar rieni o wledydd eraill. Gallai darpar rieni ddod i'r DU i ymrwymo i drefniant benthyg croth yn y wlad hon, gyda'r bwriad o fynd â'r plentyn yn ôl i'r wlad lle maen nhw'n byw i ddod yn rhieni cyfreithiol yn y fan honno. Rydyn ni'n gofyn a oes angen cyflwyno cyfyngiad ar symud plentyn o'r DU yn yr amgylchiadau hyn, ac os felly, proses i ganiatáu hyn, gyda sêl bendith y llys.

## MATERION ERAILL



Mae Pennod 17 o'r Papur Ymgynghori yn cynnwys trafodaeth am rannau eraill o'r gyfraith a pholisïau sy'n cael effaith ar drefniadau benthyg croth, ac yn holi a oes angen diwygio yn y meysydd hyn er mwyn hwyluso trefniadau benthyg croth yn well. Yn benodol, rydyn ni'n gofyn cwestiynau am gyfraith cyflogaeth, cyfraith olyniaeth (sy'n ymdrin ag etifeddiaeth plentyn sydd wedi'i eni drwy drefniant benthyg croth) a sut mae'r gwasanaethau iechyd yn delio ag achosion o fenthyg croth.

Mae Pennod 18, y bennod olaf yn y papur, yn gofyn cwestiynau er mwyn casglu gwybodaeth am y maes yn gyffredinol a sut mae'n cael ei ariannu, effaith ein cynigion ar famau benthyg a darpar rieni, a'r effaith benodol ar Ogledd Iwerddon.

Ym Mhennod 19, ceir rhestr o holl gwestiynau'r ymgynghoriad.

## CASGLIAD

Gobeithio y byddwch chi'n darllen y penodau llawn ar y pynciau sydd o ddiddordeb i chi yn y Papur Ymgynghori, ac yn ateb y cwestiynau sydd yn y papur.

**TMae'r Papur Ymgynghori llawn, a'r ffurflen ymateb ar-lein, ar gael yn** https://www.lawcom.gov.uk/project/surrogacy/ **ac yn** https://www.scotlawcom.gov.uk/law-reform/consultations/